**Yr Adran Materion Gwledig**

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Hill House
Caerfyrddin
SA31 3BS

Ffôn 01267 225300

E-bost: livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO – NODIADAU CYFARWYDDYD

**RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG A GORCHYMYN LLES ANIFEILIAID (CLUDO) CYMRU 2007**

**MANYLEB CERBYDAU FFORDD a THRELARS a CHYNWYSYDDION a CHANLLAWIAU ar eu HADEILADWAITH**

**DOFEDNOD (Ffowls domestig, hwyaid, gwyddau, twrcwn, ieir gini, soflieir, ffesantod a phetris)**

**RHEOLIAD 1/2005 yr UE (Erthygl 3 ac Atodiad I)**

**NODIADAU**

- Rhaid i gerbydau, trelars a chynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer teithiau hir gael eu harchwilio a'u cymeradwyo o flaen llaw gan Awdurdod Cymwys (Erthyglau 7 ac 18). Fel rheol bydd cymeradwyaeth yn ddilys am hyd at 5 mlynedd.

- Mae cymhwyso'r rhanddirymiad o'r gofyniad sy'n galw am archwilio a chymeradwyo teithiau hyd at 12 awr i gyrchfan derfynol o fewn y DU, fel y caniateir gan Erthygl 18(4), yn golygu **nad** oes angen archwilio a chymeradwyo cerbydau sy'n cario anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid mewn cynwysyddion, sy'n teithio hyd at 12 awr er mwyn cyrraedd eu cyrchfan derfynol.

- Nid yw'r rhanddirymiad yn cynnwys teithiau dros 12 awr. Felly, **mae** angen tystysgrifau cymeradwyo cerbydau ar gyfer teithiau o'r fath.

- Ar gyfer teithiau dros wyth awr **sy'n gadael y DU,** argymhellir yn gryf fod cludwyr yn cysylltu â'r awdurdodau yn yr aelod-wladwriaethau y bwriedir cludo anifeiliaid iddynt neu trwyddynt i weld a oes angen tystysgrifau cymeradwyo ar gyfer y math yma o daith.

- Ymron pob achos, bydd teithiau dros 12 awr yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r DU.  Felly, wrth ystyried teithiau o'r hyd yma, argymhellir yn gryf fod cludwyr yn cysylltu â'r awdurdodau yn yr aelod-wladwriaethau y bwriedir cludo anifeiliaid iddynt neu trwyddynt i weld a oes angen tystysgrifau cymeradwyo ar gyfer y math yma o daith.

- Diffinnir taith hir (Erthygl 2(m)) fel un sy'n para mwy nag 8 awr ar ôl symud (h.y. llwytho) yr anifail cyntaf (yn achos dofednod dylid mesur o'r amser y mae'r cerbyd yn gadael y man llwytho cyntaf).

- Diffinnir cerbyd (Erthygl 2 (z)) fel math o gludiant ar olwynion sy'n cael ei yrru ymlaen neu ei dynnu.

- Ni ddiffinnir dofednod yn y Rheoliad ond cymerir ei fod yn cynnwys y canlynol: ffowls domestig, hwyaid, gwyddau, twrcwn, ieir gini, soflieir, ffesantod a phetris.

- Crynodeb o'r geiriau cyfreithiol yn y rheoliad yw'r gofynion Rheoliad 1/2005 yn y tabl isod a dylech bob amser ddarllen y rheoliad.

- Cymerir y bydd dofednod llawndwf yn cael eu cludo mewn bocsys, cratiau neu unedau (cynwysyddion) a ddyluniwyd i'r diben, i'w cario mewn cerbyd ac (fel rheol) wedi'u cynhyrchu'n arbennig ar gyfer y gwaith.

- Nid yw'r rheoliad yn gwahaniaethu rhwng cludo dofednod 'diwrnod oed' a 'llawndwf', ond galwant am drefniadau gwahanol iawn a rhaid rhoi ystyriaeth i hynny.

- Rhoddir canllawiau ar adeiladwaith er mwyn helpu i roi'r Rheoliad ar waith yn ymarferol ac yn gyson.

- Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r prif ganllawiau (Rhan 1).

## Rhan 1 – CERBYDAU a THRELARS

| Eitem | Erthygl 3 ac Atodiad I | Gofynion Rheoliad 1/2005 | Canllawiau ar gyfer Adeiladu |
|---|---|---|---|
| Cyffredinol | Erthygl 3 | Ni chaniateir i unrhyw un gludo anifeiliaid neu achosi i anifeiliaid gael eu cludo mewn modd sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen iddynt. | Darpariaeth gyffredinol ar gyfer 'diogelu lles anifeiliaid' sydd hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol defnyddio dull cludo addas a chyfleusterau llwytho a dadlwytho addas a rhoi digon o le i anifeiliaid ar y llawr ac uwch eu pennau. |
| Dylunio<br>Adeiladu<br>Cynnal a Chadw | Erthygl 3 (c)<br><br>Pennod II 1.1 (a) | Wedi'u dylunio, eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu er mwyn osgoi anaf a dioddefaint a sicrhau diogelwch yr anifeiliaid. | Dyluniad o safon uchel - yn amrywio yn ôl oed y dofednod sydd i'w cludo - yn defnyddio deunyddiau a dulliau addas. Defnyddir sawl gwahanol ddyluniad a system. Cynnal a chadw mewn cyflwr strwythurol a mecanyddol da. Trwsio cratiau wedi torri neu ddefnyddio rhai newydd. |
| Cryfder | Pennod II 1.1 (d) | Gallu gwrthsefyll pwysau symudiadau | Rhaid bod y lloriau, ochrau, rhaniadau os oes rhai, to a gosodiadau yn ddigon cryf i wrthsefyll pwysau llwytho/dadlwytho, cludo a thrafod anifeiliaid. Rhaid i gratiau sy'n dal cratiau eraill fod yn solet a dim modd o'u plygu. |
| Diogelwch | Pennod II 1.1 (a)<br>Pennod II 1.1 (d) | Sicrhau diogelwch yr anifeiliaid.<br>Atal anifeiliaid rhag dianc neu gwympo. | Rhaid i drefniadau ar gyfer llwytho, storio a chludo cynwysyddion dofednod sicrhau bod yr adar yn cael eu dal yn ddiogel. |
| Mynediad | Pennod II 1.1 (f) | I anifeiliaid er mwyn eu harchwilio a gofalu amdanynt. | Cydnabyddir fod cludo llwyth dofednod mewn cynwysyddion yn ei gwneud hi'n amhosibl archwilio a gofalu'n llawn am yr adar wrth eu cludo. |
| To | Pennod II 1.1 (b) | Diogelu rhag tywydd garw, tymheredd eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd. | Ni nodir to solet, fel y cyfryw, ond ystyrir ei fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu dofednod yn erbyn unrhyw dywydd andwyol posibl. |
| Llawr | Pennod II (g)<br>Ch.II (h) | Wyneb gwrth-lithro.<br>Gofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng. | Ni fydd rhaid darparu wyneb gwrth-lithro os na fydd dofednod yn sefyll ar lawr y cerbyd. Wrth ofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng, nid oes raid i'r llawr ddal dŵr yn llwyr. |
| Ochrau / Y ddau ben | Pennod II 1.1 (b) | Diogelu rhag tywydd garw, tymheredd eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd. | Digon caeedig i ddiogelu rhag y tywydd. Dylid dylunio gorchuddion ochr i gerbydau dofednod llawndwf a'u gosod fel bod modd eu haddasu yn ôl amodau tywydd amrywiol. Mae'n debygol y bydd angen cerbyd cwbl gaeedig ar ddofednod 'diwrnod oed' ynghyd â dull o reoli'r amgylchedd. |
| Awyru | Pennod II 1.1 (e) | Sicrhau bod digon o aer, a hwnnw o ansawdd | Awyru digonol ar gyfer sefyllfaoedd 'eithriadol' – e.e. pan fo cerbyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pennod III 2.6 | priodol.<br>Awyru digonol ar gyfer y nifer o anifeiliaid ac amodau tywydd. | yn llonydd mewn tywydd poeth. Cynnal amgylchedd cyson a phriodol mewn tywydd poeth. Mae cynnal amgylchedd cyson a phriodol o fewn cerbyd wedi'i lwytho yn dibynnu ar sawl ffactor, yn cynnwys dyluniad y cynhwysydd a'r dull o storio.<br>Dylid ceisio cyngor arbenigol.<br>I gario llwyth cywion diwrnod oed mewn cynwysyddion, rhaid i'r cerbyd gynnwys system awyru a all newid aer o leiaf 30 gwaith yr awr. Dylid cynnal yr amgylchedd yn y cynwysyddion o fewn amrediad tymheredd o 15˚ - 25˚, ar leithder cymharol o 40% - 60%. |
| Storio a Phentyrru Cynwysyddion | Pennod III 1.7<br>Pennod III 2.6 | Cyfyngu ar faint o wrin a thail sy'n cwympo ar adar islaw.<br>Sicrhau fod cratiau'n ddiogel rhag cwympo, a bod aer yn llifo'n ddirwystr. | Rhaid i drefniadau pentyrru a storio cynwysyddion ar y cerbyd arwain at lwyth diogel na chaiff ei symud wrth ei gludo. Wrth storio a phentyrru, gallai fod angen gwneud lle i aer lifo rhwng cynwysyddion, yn dibynnu ar eu dyluniad ac amodau tywydd. |
| Cyfleusterau llwytho / dadlwytho | Pennod II 2.2 | Cario cyfarpar addas i lwytho a dadlwytho anifeiliaid. | Rhaid i unrhyw gyfarpar a ddefnyddir fod yn addas i'r diben. Cydnabyddir y gallai fod angen cyfarpar arbennig ar gyfer llwytho/dadlwytho dofednod mewn cynwysyddion neu wneud hynny â llaw, ac efallai mai dim ond lle mae'r daith yn cychwyn neu'n gorffen y bydd hyn yn bosibl. |
| Goleuo | Pennod II 1.1 (i)<br>Pennod III 1.6 | Er mwyn archwilio anifeiliaid a gofalu amdanynt wrth eu cludo.<br>Wrth lwytho a dadlwytho. | Gallai goleuadau symudol fod yn ddigon ar gyfer archwilio'r anifeiliaid wrth eu cludo. Nid oes rhaid gosod goleuadau ar gyfer llwytho a dadlwytho ar y cerbyd, ond dylid darparu rhai ar gyfer gwaith o'r fath. |
| Arwydd | Pennod II 2.1 | Arwydd clir a gweladwy ar y cerbyd i ddynodi presenoldeb anifeiliaid byw. | Nid oes rhaid i gerbyd ddangos arwydd wrth gario anifeiliaid mewn cynwysyddion, ond rhaid rhoi arwydd ar y cynwysyddion i ddynodi presenoldeb anifeiliaid byw. Er hynny, gweler y canllawiau ar gynwysyddion lle mae'n amlwg yn weledol eu bod yn cynnwys anifeiliaid. |
| Glanhau a diheintio | Pennod II 1.1 (c)<br>Pennod III 1.3 (b) | Dylid gallu glanhau a diheintio'r cerbyd, y cyfarpar a'r cyfleusterau llwytho/dadlwytho. | Gall y Rheolau Iechyd Anifeiliaid ei gwneud hi'n ofynnol i lanhau a/neu ddiheintio cyn llwytho anifeiliaid, ac ar ôl eu dadlwytho. |
| Defnyddio RO-RO | Pennod II 3.2 | Digon o fachau diogelu addas. Rhaid bachu'r cerbyd wrth y llong i'w atal rhag symud. | Dim ond yn angenrheidiol os yw'r cerbyd i'w gario ar long RO-RO. Rhaid i fachau diogelu fod yn ddigon cryf ac o ddyluniad addas i dderbyn cyfarpar y llong. |

## RHAN 2 – CYNWYSYDDION

| Eitem | Erthygl 3 ac Atodiad I | Gofynion Rheoliad 1/2005 | Canllawiau ar gyfer Adeiladu |
|---|---|---|---|
| Cyffredinol | Erthygl 3 | Ni chaniateir i unrhyw un gludo anifeiliaid neu achosi i anifeiliaid gael eu cludo mewn modd sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen iddynt. | Darpariaeth gyffredinol ar gyfer 'diogelu lles anifeiliaid' sydd hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol defnyddio dull cludo addas a chyfleusterau llwytho a dadlwytho addas a rhoi digon o le i anifeiliaid ar y llawr ac uwch eu pennau. |
| Dylunio<br>Adeiladu<br>Cynnal a Chadw | Erthygl 3 (c)<br><br>Pennod II 1.1 (a) | Wedi'u dylunio, eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu er mwyn osgoi anaf a dioddefaint a sicrhau diogelwch yr anifeiliaid. | Wedi'i ddylunio i safon uchel gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau addas. Rhaid i'r dyluniad fod yn addas i oed a maint y dofednod, a gweddu i drefniant y cerbyd sy'n cludo. Defnyddir sawl gwahanol ddyluniad a system. Cynnal a chadw mewn cyflwr strwythurol a mecanyddol da. |
| Cryfder | Pennod II 1.1 (d) | Gallu gwrthsefyll pwysau symudiadau | Rhaid i bob rhan fod yn ddigon cryf i ddal yr adar sydd i'w cario, ac i wrthsefyll pwysau llwytho/dadlwytho, cludo a thrafod adar. Rhaid iddynt fod yn ddigon cryf i gynnal pwysau cynwysyddion a bentyrrir ar eu pennau. |
| Diogelwch | Pennod II 1.1 (a)<br>Pennod II (d) | Sicrhau diogelwch yr anifeiliaid.<br>Atal anifeiliaid rhag dianc neu gwympo. | Dim ymylon miniog a phethau sy'n ymestyn allan a allai anafu adar. Rhwystrwch neu cyfyngwch ar faint o rannau o gyrff adar sy'n ymestyn allan drwy agoriadau.<br>Diogel a heb bosibilrwydd y gall adar ddianc. |
| Mynediad | Pennod II 1.1 (f) | I anifeiliaid er mwyn eu harchwilio a gofalu amdanynt. | Cydnabyddir fod cludo llwyth dofednod mewn cynwysyddion yn ei gwneud hi'n amhosibl archwilio a gofalu'n llawn am yr adar wrth eu cludo. |
| To / gorchudd | Pennod II 1.1 (b) | Diogelu rhag tywydd garw, tymereddau eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd. | Rhaid iddo adael i aer lifo'n rhydd, a bod yn ddigon caeedig i gadw'r adar rhag dianc. Dylai cerbyd cludo ddarparu diogelwch sylfaenol rhag y tywydd. |
| Llawr | Pennod II 1.1 (g)<br>Pennod II 1.1 (h)<br>Pennod II 1.7 (a) | Wyneb gwrth-lithro.<br>Gofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng.<br>Cyfyngu ar faint o wrin a thail sy'n cwympo ar adar islaw. | Digon cryf i ddal pwysau'r adar.<br>Rhaid sicrhau nad oes 'peryglon' ar y llawr a dylai fod digon o afael ynddo i'w cadw rhag llithro wrth gael eu cludo.<br>Wrth ofalu bod cyn lleied â phosibl o wrin a thail anifeiliaid yn gollwng, nid oes raid i'r llawr ddal dŵr yn llwyr. |
| Ochrau / Y ddau ben | Pennod II 1.1 (b) | Diogelu rhag tywydd garw, tymheredd eithafol, newidiadau andwyol yn yr hinsawdd. | Rhaid ei fod yn gadael i ddigon o aer lifo drwy'r cerbyd tra'n ddigon caeedig i gadw'r adar rhag dianc. Dylai cerbydau cludo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | adar ddarparu diogelwch sylfaenol rhag y tywydd. |
| Rhaniadau | Pennod II 1.4 | Digon cryf i wrthsefyll pwysau'r adar. Gosodiadau wedi'u dylunio i weithio'n gyflym a hwylus. | Os defnyddir rhaniadau rhwng adrannau o fewn y cynhwysydd, rhaid iddynt fod yn ddigon uchel, dwfn a chryf i wahanu adar unigol neu grwpiau o adar. Gallai fod angen iddynt gynnwys agoriadau fel bod aer yn llifo drwy'r cynhwysydd. Gallant fod yn rhan sefydlog a solet o strwythur y cynhwysydd. |
| Awyru | Pennod II 1.1 (e)<br>Pennod III 2.6 | Sicrhau bod digon o aer, a hwnnw o ansawdd priodol.<br>Awyru digonol ar gyfer y nifer o anifeiliaid ac amodau tywydd. | Awyru digonol ar gyfer sefyllfaoedd 'eithriadol' – e.e. pan fo cerbyd yn llonydd mewn tywydd poeth. Mae cynnal amgylchedd cyson a phriodol o fewn cynhwysydd yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau.<br>Dylid ceisio cyngor arbenigol.<br>I gario llwyth cywion diwrnod oed mewn cynwysyddion, rhaid i'r cerbyd gynnwys system awyru a all newid aer o leiaf 30 gwaith yr awr. Dylid cynnal yr amgylchedd yn y cynwysyddion o fewn amrediad tymheredd o 15˚ - 25˚, ar leithder cymharol o 40% - 60%. |
| Storio, pentyrru a diogelu | Pennod II 5.3<br>Pennod III 1.7<br>Pennod III 2.6 | Bachau diogelu os yw'r cynhwysydd yn pwyso dros 50kg.<br>Cyfyngu ar faint o wrin a thail sy'n cwympo ar adar islaw.<br>Sicrhau bod cynwysyddion yn ddiogel rhag cwympo, a bod aer yn llifo'n ddirwystr. | Rhaid i drefniadau pentyrru a storio cynwysyddion ar y cerbyd arwain at lwyth diogel na chaiff ei symud wrth ei gludo. Wrth storio a phentyrru, gallai fod angen gwneud lle i aer lifo rhwng cynwysyddion, yn dibynnu ar eu dyluniad. |
| Maint / gofod / uchder y tu mewn | Erthygl 3 (g)<br><br>Pennod II 1.2 | Digon o arwynebedd llawr ac uchder fel sy'n addas i'r anifeiliaid a'r daith. Digon uchel i awyru uwch eu pennau wrth iddynt sefyll, heb eu rhwystro rhag symud yn naturiol. | Cydnabyddir nad yw'r rhan fwyaf o ddofednod, ac eithrio cywion diwrnod oed, angen uchder i sefyll ar eu traed wrth gael eu cludo. Swatio a gafael â'u traed sy'n cynnig y diogelwch a'r sefydlogrwydd gorau iddynt. Ond rhaid bod digon o le uwch eu pennau i'r aer lifo.<br>Arwynebedd llawr – gweler 'Faint o le i'w neilltuo'. |
| Arwydd | Pennod II 5.1 | Arwydd clir a gweladwy i ddynodi presenoldeb 'Anifeiliaid byw' a 'Pen uchaf y cynhwysydd'. | Rhaid rhoi arwydd ar bob cynhwysydd, lle nad yw ei gynnwys yn amlwg yn weledol. Bydd pictograff yn ddigon. |
| Glanhau a diheintio | Pennod II 1.1 (c) | Dylid gallu glanhau a diheintio cyfarpar y cerbyd (cynhwysydd). | Gall y Rheolau Iechyd Anifeiliaid ei gwneud hi'n ofynnol i lanhau a/neu ddiheintio cyn llwytho anifeiliaid, ac ar ôl eu dadlwytho. |
| Faint o le i'w neilltuo | <br>Pennod III 2.1<br><br>Pennod VII E | Cydymffurfio â'r ffigurau ym Mhennod VII E.<br><u>Cywion diwrnod oed</u><br>21cm² i 25cm² y cyw<br><u>Dofednod ac eithrio cywion diwrnod oed</u><br>< 1.6kg - 180 i 200cm² y kg o bwysau byw | Nodir arwynebedd llawr gofynnol mewn m² i bob aderyn ar gyfer dofednod mewn cynwysyddion. Ond mae'r Rheoliad yn caniatáu amrywio'r ffigurau trwy roi'r datganiad canlynol – Gall y ffigurau hyn amrywio yn dibynnu, nid yn unig ar bwysau a maint yr adar, ond hefyd ar eu cyflwr corfforol, amodau tywydd a hyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 1.6kg i <3.0kg – 160cm² y kg<br>3.0kg i < 5.0kg – 115cm² y kg<br>>5.0kg - 105cm² y kg | amser tebygol y daith. |